

## Sut i gwyno

Os ydych yn teimlo'n barod i wneud cwyn, gallwch ei wneud yn y ffordd sy'n gweithio i chi:

- Llenwch y ffurflen ar ein gwefan. Gallwch fynd i'n gwefan drwy sganio'r cod QR ar gefn y daflen hon.
- Ffoniwch a gofynnwch i ni am ffurflen bapur neu lawrlwythwch ac argraffwch un eich hun. Cwblhewch hi a'i phostio neu ei hanfon yn ôl atom trwy e-bost. Mae ein rhif ffôn hefyd ar gefn y daflen hon.
- Yna byddwn yn anfon hon at y gwasanaeth heddlu perthnasol i ddelio â hi yn y lle cyntaf.
- Os ydych yn teimlo'n gyfforddus, gallwch gwyno'n uniongyrchol i'r gwasanaeth heddlu dan sylw. Mae'r rhan fwyaf o wasanaethau'r heddlu yn rhoi opsiynau i chi gwyno mewn gwahanol ffyrdd, fel ar-lein, e-bost, llythyr, ffonio 101, yn bersonol, neu drwy rywun sy'n gweithredu ar eich rhan.
- Os oes angen cymorth arnoch, gall rhywun rydych yn ymddiried ynddo/ ynddi eich helpu i gwyno.

## Cysylltwch â ni:

 **030 0020 0096**

 **policeconduct.gov.uk**

 **enquiries@policeconduct.gov.uk**



Rydym yn croesawu galwadau a gohebiaeth yn y Saesneg  
*We welcome calls and correspondence in English*

Mawrth 2024

© Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (2024)

**OGL**

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored v3.0 oni bai lle nodir yn wahanol.

Nid yw hyn yn cynnwys deunydd ar y wefan hon fel deunydd sy'n perthyn i drydydd partion. Rhaid cael caniatâd i ddefnyddio deunydd o'r fath gan ddelliaid yr hawlfraint dan sylw.



Mae  
**GENNYCH**  
**LAIS**

## Os ydych chi'n anhapus â'r ffordd y mae'r heddlu wedi eich trin, gallwch wneud cwyn.

Mae gennych yr hawl i godi llais a chael eich llais wedi'i glywed. Ni ddylech gael eich gwneud i deimlo'ch bod yn cael eich gwrthod, yn anghyfforddus neu'n anniogel gan yr heddlu.

### Pwy ydym ni

Ni yw Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu, corff gwarchod cwynion yr heddlu. **Nid ni yw'r heddlu** – rydym yn **gwbl annibynnol** iddynt.

Rydym yn sicrhau bod yr heddlu yn ymchwilio i gwynion amdanynt yn briodol. Rydym yn defnyddio tystiolaeth o'n gwaith i helpu i wella plismona.

Rydym yn deall bod pobl yn poeni am drais yn erbyn menywod a merched, a sut mae'r heddlu'n delio ag ef. **Rydym am i chi wybod am system gwynion yr heddlu a sut i wneud cwyn os oes angen.**

## Beth allwch chi gwyno amdano

Gallwch wneud cwyn am rywbeth yn ymwneud â'r heddlu a ddigwyddodd i chi neu os gwelsoch ef yn digwydd. Gallai rhai enghreifftiau fod:

- Fe wnaethoch chi adrodd am rywbeth i'r heddlu ac roeddech chi'n anhapus â'r hyn wnaethon nhw neu na wnaethon nhw.
- Mae eich partner, cyn bartner, neu aelod o'ch teulu yn gweithio neu wedi gweithio i'r heddlu ac fe wnaethon nhw eich cam-drin. Gallai cam-drin olygu'n gorfforol, yn rhywiol, yn emosiynol neu'n ariannol.
- Roeddech mewn cysylltiad â'r heddlu, ac fe wnaethant rywbeth amhriodol, fel eich ychwanegu ar gyfryngau cymdeithasol, eich ffonio neu anfon neges destun atoch, ymweld â chi, rhoi anrhegion, gofyn i chi gadw pethau'n gyfrinachol, fflyrtio, eich cyffwrdd, neu fod yn rhywiol.

Pan fyddwch yn cwyno, bydd y gwasanaeth heddlu y gwnaethoch gwyno amdano yn ymchwilio iddo yn gyntaf. Mae hyn er mwyn iddynt gael cyfle i unioni pethau.

Dylent hefyd ofyn i chi beth yr hoffech ei weld yn digwydd, oherwydd bod eich llais yn bwysig.

## Beth allai ddigwydd

Mae'n rhaid i wasanaeth yr heddlu **ddweud wrthyich beth wnaethant a beth yw'r canlyniad.**

### Gall cwynion gael canlyniadau gwahanol:

- Gallai aelod o'r heddlu gael hyfforddiant i wneud ei waith yn well.
- Gallent gael eu disgyblu yn y gweithle. Gallai hyn fod yn unrhyw beth o rybudd, hyd at golli eu swydd a chael eu hatal rhag gweithio i'r heddlu byth eto.
- Gallen nhw wynebu cyhuddiadau troseddol. Os ydynt yn cael eu canfod yn euog, maen nhw'n wynebu'r un cosbau y gallai unrhyw un arall eu cael.
- Rydym hefyd yn gwneud argymhellion i wasanaethau heddlu i'w helpu i ddysgu o'r hyn a ddigwyddodd a gwneud pethau'n well yn y dyfodol.

Os ydych chi'n anhapus â chanlyniad eich cwyn neu sut y cafodd ei thrin, efallai y gallwch ofyn am gael ei hadolygu. Dylai gwasanaeth yr heddlu esbonio hyn pan fyddant yn dweud wrthyich am y canlyniad. Mae'n bosibl y bydd sefydliad gwahanol, fel ni, yn gallu edrych arno i weld beth wnaethon nhw, sut y gwnaethon nhw, ac a wnaethon nhw bethau'n iawn.